

# Adroddiad Cadwraeth

2024 - 2025

Menter ar Gyfer Cadwraeth Natur Cymru

Initiative for Nature Conservation Cymru

# Adroddiad Cadwraeth 2024 / 2025

Cyfnod Adrodd: Ebrill 2024 – Mawrth 2025

**Annwyl Gefnogwr**

Fe gefais i fy newis yn Ymddiriedolwr gydag INCC ar ddechrau 2024 ac roedd yn anrhydedd i mi ddod yn Gadeirydd ar yr elusen ar ddechrau 2025. Credaf fod angen sefydliad cadwraeth natur annibynnol fel INCC ar Gymru, sefydliad sy'n gallu codi llais a herio pobl sy'n gwneud penderfyniadau i wneud mwy dros fywyd gwyllt a'r amgylchedd. Rydw i'n falch o'r camau a gymerwyd tuag at ddwyn Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i gyfrif yn ystod y cyfnod adrodd, yn enwedig ein huchelgais cynyddol i greu uned ymchwiliadau cadwraeth natur ar gyfer Cymru. Mae ein cynllun busnes newydd yn dadansoddi pum elfen graidd gwaith INCC dros y blynyddoedd nesaf, sef Ymchwiliadau Natur, Adfer Rhywogaethau, Adfer Cynefinoedd, Natur Cymru a chefnogi Cadwraethwyr ar Ddechrau eu Gyrfa. Mae'n wych gweld cymaint o gynnydd yn cael ei wneud eisoes gyda phob un o'r pum elfen ac rydw i'n edrych ymlaen at weld INCC yn cyflawni mwy dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Mae peidio â derbyn cyllid gan y llywodraeth neu gyllid statudol yn golygu mai dim ond chi - ein cefnogwyr a'n cyfranwyr a'n gwirfoddolwyr hael - sydd wedi gwneud ein llwyddiannau ni'n bosibl. Mae pob awr o amser rydych chi'n ei rhoi a phob punt rydych chi'n ei chodi yn cyfrannu at Gymru gyda mwy o fywyd gwyllt mewn mwy o lefydd.

Diolch yn fawr.

**Daniel Jenkins-Jones**
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**

**Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru (INCC)**
Y Ganolfan Wyddoniaeth
d/o Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Llanarthne
Sir Gaerfyrddin
SA32 8HG
Rhif Elusen 1180113

07821 397625

info@incc.wales

www.natureconservation.wales

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

**Clawr Blaen:** Bonet Wlithog *Mycena rorida. Llun: Vaughn Matthews*

# Cynnwys


**Pwy Ydym Ni a Beth Rydym yn Sefyll Drosto**……….………………………..Tudalen 3
Gweledigaeth INCC…………………………………………………………….… Tudalen 3
Cenhadaeth INCC……………………………………………………..........................Tudalen 3
Llywodraethu…………………………………………………………………......... Tudalen 3
Staff…………………………………………………………………………….……. Tudalen 3
Safle yn y Sector……………………........……………………………………………. Tudalen 3
Gweithgareddau……………………………..…………………………………….... Tudalen 3
Amcanion………………………………………………………………………........ Tudalen 3
Cynllun Busnes 2025 – 2030………………………………………………………. Tudalen 4

**Ymchwiliadau Natur**…..……………………..……………………………...........Tudalen 5
Stopio'r Rhyfel yn erbyn Natur………………..………………………………….. Tudalen 5
Dim Mwy o Danau Gwyllt..…….……..……..…………………………..………...Tudalen 6
Effeithiau Adfywiad Coed Conwydd………....................……………………….……Tudalen 6
Camreoli Glaswelltir SoDdGA……........…..……………………………….………...Tudalen 7

**Adfer Rhywogaethau**…………………………………..…………..................Tudalen 9
Atgyfnerthu Poblogaethau Britheg y Gors.……………..………..………................... Tudalen 9
Ailgyflwyno Llygod Pengrwn y Dŵr – Afon Ddawan………………...……..….........Tudalen 12
Ailgyflwyno Britheg y Gors yng Ngogledd Sir Benfro.......……………………………Tudalen 13
Achub Llygod Pengrwn y Dŵr yr Ucheldiroedd………………………………......... Tudalen 14
Arolygon Rhywogaethau Cefn Garthenor.......………………..…………..……..........Tudalen 16
Adfer Rhywogaethau Dyffryn Aman……………………………………..……....... Tudalen 18

**Rheoli Tir ac Adfer Cynefinoedd**…....................……………………………………Tudalen 23
Fferm Old Wallace…………………………...……………………………………... Tudalen 23
Llwyngoras…………………………..…………………………………………………. Tudalen 23
Gwarchodfa Natur Llwyndewi..……….……………………………………………… Tudalen 25
Contractau Cadwraeth…....……………..…….……………………………………Tudalen 27

**Cefnogi Cadwraethwyr ar Ddechrau eu Gyrfa**……………..……..................... Tudalen 29
Porfa Goed Llwyngoras…......……...………………….………………………........ Tudalen 29
Penwythnos Preswyl Cefn Garthenor.......…………….…………………………....... Tudalen 30

**Natur Cymru 2024 / 2025**……………………………………………….............Tudalen 31

**Gair o Ddiolch**....................................................................................................Tudalen 32

# Pwy Ydym Ni a Beth Rydym yn Sefyll Drosto

## Gweledigaeth INCC

Cymru gyda mwy o fywyd gwyllt mewn mwy o lefydd, wedi'i chreu gan gymdeithas sy'n rhoi gwerth cynhenid ar fyd natur.

## Cenhadaeth INCC

Bod y llais digyfyngiad sydd ei angen ar fywyd gwyllt Cymru, gan godi llais a rhoi anghenion bywyd gwyllt yn gyntaf.

### Llywodraethu


**Cadeirydd**: Daniel Jenkins-Jones
**Trysorydd:** Carys Solman
**Ysgrifennydd:** Lyndsey Maiden
**Ymddiriedolwr**: Dr Mike Shewring
**Ymddiriedolwr**: Julian Jones
**Ymddiriedolwr**: Dr Jim Vafidis
**Ymddiriedolwr:** Dr Rob Thomas


### Staff

- **Prif Weithredwr**: Robert Jones Parry
- **Golygydd Natur Cymru:** Dr Lizzie Wilberforce
- **Swyddog Rhywogaethau**: Vaughn Matthews
- **Swyddog Cadwraeth**: Eliza Chapman
- **Swyddog Cadwraeth**: Richard Bluck
- **Swyddog Bywyd Gwyllt Cymunedol:** Gráinne Connolly

### Safle yn y Sector

Sefydlwyd INCC yn 2018 mewn ymateb i'r angen cynyddol am sefydliad cadwraeth natur annibynnol a all godi llais a herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau amgylcheddol i wneud mwy dros fywyd gwyllt.

### Gweithgareddau

- Cadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd
- Ymchwil, arolygon a monitro
  Adfer a chreu cynefinoedd
- Cyngor a chefnogaeth i berchnogion tir
- Ymgysylltu ac addysg
  Eiriolaeth, ymgyfreitha ac ymgyrchoedd

### Amcanion

Amcanion INCC, fel yr amlinellir yn ein dogfen lywodraethu, yw:

- Hyrwyddo, er budd y cyhoedd, y gwaith o gadw, gwarchod a gwella amgylchedd naturiol Cymru mewn ffyrdd y gwêl yr

ymddiriedolwyr yn dda a chan gynnwys drwy eiriolaeth, cynnal ymchwil a chyhoeddi canlyniadau defnyddiol hynny, a hyrwyddo bioamrywiaeth.

- Hyrwyddo addysg y cyhoedd mewn cadwraeth, gwarchod a gwella amgylchedd naturiol Cymru drwy ddarparu gwybodaeth a thrwy godi ymwybyddiaeth.

## Cynllun Busnes 2025 - 2030

Y cynllun busnes hwn yw'r ail ddogfen strategol ar gyfer INCC, yn dilyn ei Gynllun Strategol cyntaf, a oedd yn weithredol o 2019 i 2023.

Yn ystod ei saith mlynedd cyntaf, mae INCC wedi cynyddu ei staff i bum swydd ran amser, wedi cyflwyno nifer o heriau cyfreithiol llwyddiannus i amddiffyn ein hamgylchedd naturiol, wedi lansio ei chyfnodolyn nodedig *Natur Cymru*, ac wedi rheoli sawl prosiect cadwraeth ymarferol arwyddocaol llwyddiannus gan gynnwys ailgyflwyno glöyn byw Britheg y Gors *Euphydryas aurinia* i Lantrisant, sy'n cael ei gynnal yn helaeth. Mae wedi adeiladu ei hincwm a'i llif arian yn fodel gwydn sy'n cynnal y prosiectau mae'n eu gweithredu ar hyn o bryd, gyda *Natur Cymru* yn talu ei gostau ei hun ac yn cefnogi gwaith elusennol ehangach INCC.

Mae'r cynllun busnes hwn yn cynnwys ein blaenoriaethau ni ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Dyma fydd ein blaenoriaethau cadwraeth:

- Cyflwyno a dangos arferion gorau o ran rheoli tir
- Adfer rhywogaethau
- Datblygu cyrhaeddiad ac effaith *Natur Cymru*
- Datblygu Uned Ymchwiliadau Natur
- Cefnogi cadwraethwyr ar ddechrau eu gyrfa

Mae gennym hefyd flaenoriaethau datblygu sefydliadol, sef:

- Cynyddu sylfaen cyfranwyr INCC a chyfanswm y rhoddion blynyddol
- Adolygu swyddogaethau'r Bwrdd, hyfforddiant a chynllunio olyniaeth
- Cynyddu cronfeydd digyfyngiad INCC
- Codi proffil cyhoeddus INCC

# Ymchwiliadau Natur

Mae siarad dros fywyd gwyllt drwy ymgyrchu a herio pobl sy’n gwneud penderfyniadau amgylcheddol yn greiddiol i waith INCC.

Er mwyn sicrhau bod ein hymgyrchu’n cael cymaint o effaith â phosibl, rydym yn gweithio'n agos gyda'r cwmni cyfreithiol amgylcheddol Leigh Day. Mae heriau cyfreithiol yn dod yn adnodd cynyddol angenrheidiol yn y frwydr dros Gymru sydd â mwy o fywyd gwyllt.

## Stopio’r Rhyfel yn erbyn Natur

Dros y tair blynedd nesaf, rydym eisiau arloesi gyda newid sylfaenol yn y sector cadwraeth natur a fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar ddwyn pobl sy'n gwneud penderfyniadau amgylcheddol i gyfrif.

Rydym eisiau cyflawni hyn drwy dynnu sylw at, a herio, agweddau, diffyg gweithredu a phenderfyniadau lle mae ganddynt y potensial i effeithio ar fywyd gwyllt a chadwraeth natur yng Nghymru.

Ar hyn o bryd rydym yn codi arian i sefydlu Uned Ymchwiliadau Natur i Gymru. Bydd yr uned yn cynnwys newyddiadurwyr, ymgyrchwyr, ymchwilwyr a chyfathrebwyr profiadol a fydd yn helpu i ddatgelu, tynnu sylw at, a herio'r materion sy'n effeithio ar adferiad byd natur yng Nghymru, ynghyd â chynnig atebion priodol.

Diolch i ymdrechion codi arian ein cefnogwyr gwych ac ymddiriedolaethau a sefydliadau dyfarnu grantiau dros flwyddyn ariannol 2024-25, rydym yn y cam lle rydym yn gobeithio lansio'r uned ymchwiliadau yn nes ymlaen yn 2025.

Fel rhan o’r ymdrechion codi arian ar gyfer yr Uned Ymchwiliadau Natur, ymunodd INCC â stiwdio animeiddio Cloth Cat yng Nghaerdydd i gynhyrchu animeiddiad arbennig i ddangos i'r cyhoedd ehangach y problemau y mae bywyd gwyllt yn eu hwynebu o ran diffyg gweithredu gan y llywodraeth.



Animeiddiad Stopio'r Rhyfel yn erbyn Natur. INCC / Cloth Cat.

Gallwch weld yr animeiddiad llawn yn:
https://bit.ly/StopTheWarOnNature

## Dim Mwy o Danau Gwyllt

Roedd gwanwyn 2025 yn gyfnod eithafol arall o danau gwyllt yng Nghymru. Mae'r tanau gwyllt yn ddigwyddiad blynyddol bellach sy'n achosi colli cynefinoedd a bywyd gwyllt ar raddfa enfawr.



Ymlusgiaid wedi'u llosgi a ddarganfuwyd ar rostir ar ôl tân diweddar. Llun drwy garedigrwydd yr Amphibian and Reptile Trust.

Eleni mae INCC wedi codi ymwybyddiaeth o effaith tanau glaswelltir ar fywyd gwyllt ac wedi ymgyrchu dros sicrhau bod 'llosgi dan reolaeth' yn cael ei reoleiddio'n well gan Lywodraeth Cymru. Arweiniodd hyn at lawer o sylw ar y cyfryngau dros gyfnod y gwanwyn 2025, er enghraifft: https://bit.ly/WildfiresWales



Mynedfa i dwll Llygoden Bengron y Dŵr mewn Hesg Rhafunog Mawr *Carex paniculata* ddaeth i'r golwg oherwydd tân allan o reolaeth.

Yn ddiweddar, mae INCC wedi gwneud cais i'r Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro i adolygu'r ddeddfwriaeth ynghylch dyfarnu trwyddedau llosgi dan reolaeth yng Nghymru. Rydym yn aros am

ymateb gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

## Effeithiau Adfywiad Coed Conwydd

Mae llawer o fygythiadau'n wynebu ein bywyd gwyllt a'n cynefinoedd brodorol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf yn hysbys ac wedi'u cofnodi'n dda. Fodd bynnag, mae bygythiad adfywiad coed conwydd ar ein glaswelltiroedd agored, ein rhostiroedd a'n cynefinoedd coetiroedd yn cael llai o gyhoeddusrwydd.



SoDdGA Craig y Llyn, a ddynodwyd oherwydd ei phlanhigion ucheldirol a'i chymunedau o sgri, sydd dan fygythiad bellach oherwydd coed conwydd ymledol.

Adfywiad conwydd yw'r enw sy'n cael ei roi ar dyfiant coed conwydd oddi wrth y casgliad o goed sydd wedi'u plannu. Mae hadau o goed conwydd masnachol yn cael eu gollwng heb fod yn y casgliad gwreiddiol o goed ac yn aml maent yn cyrraedd cynefinoedd agored fel glaswelltir asidig, corsydd a rhostiroedd.

Mae'r cynefinoedd hyn i'w gweld gerllaw planhigfeydd coedwigaeth yn aml ac yn darparu cynefinoedd pwysig ar gyfer nifer o rywogaethau. Unwaith y mae'r eginblanhigion conwydd yma'n cael cyfle i dyfu, gallant drechu a chysgodi ein fflora brodorol yn gyflym, gan leihau gwerth bioamrywiaeth cyffredinol yr ardal. Gan fod y coed conwydd hyn bellach y tu allan i'w safle dynodedig, nid ydynt yn cael eu torri, ac maent yn cael dinistrio cynefinoedd agored ac, ymhen amser, bwrw had eu hunain i waethygu'r broblem. Dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, mae INCC yn gobeithio nodi gwir raddfa'r broblem adfywiad conwydd yng Nghymru er mwyn paratoi camau cyfreithiol priodol i ddelio â'r broblem.

## Camreoli Glaswelltir SoDdGA

Ar ôl brwydr a barodd am ddwy flynedd, mae INCC wedi gallu

gorfodi corff amgylcheddol statudol Cymru, CNC, i ddefnyddio ei bwerau cyfreithiol i ddiogelu un o gynefinoedd glaswelltir pwysicaf De Cymru. Ar un adeg, disgrifiwyd y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), na ellir ei enwi am resymau cyfreithiol, fel un o'r safleoedd bywyd gwyllt mwyaf arwyddocaol yn Rhondda Cynon Taf. Roedd ganddo amrywiaeth anhygoel o gynefinoedd prin, gan gynnwys glaswelltir corsiog, glaswelltir niwtral gyda chyfoeth o rywogaethau a rhostir gwlyb a arferai orchuddio 25 hectar o'r safle. Roedd y cynefinoedd hyn yn gartref i rai o'n rhywogaethau prinnaf ni, gan gynnwys y Fritheg y Gors hardd, glöyn byw sydd mewn perygl yn Ewrop. Ystyriwyd bod poblogaeth y glöyn byw yma yn yr ardal yn un o'r rhai pwysicaf oedd ar ôl yng Nghymru ar un adeg.



Cynefin glaswelltir corsiog gydag Ysgall y Ddôl *Cirsium dissectum*

Fodd bynnag, ers i'r safle gael ei ddynodi'n SoDdGA ryw 18 mlynedd yn ôl, mae wedi cael ei adael heb ei reoli, gan arwain at golli cynefin glaswelltir pwysig, a gyda hynny'r bywyd gwyllt prin ac arbenigol oedd yn dibynnu arno. Credir bod glöyn byw Britheg y Gors wedi diflannu o'r safle tua 2014.

Mewn llythyr at INCC, dyddiedig 25ain Hydref 2022, mae CNC yn cydnabod nad yw'r safle dan sylw mewn cyflwr addas a bod angen gwaith rheoli cynefin priodol arno. Yn ogystal, mae CNC yn cydnabod nad oeddent wedi llunio cytundeb rheoli eto gyda pherchennog y tir, a fyddai wedi sefydlu trefn o waith rheoli cynefin addas i'w gwblhau.

Oherwydd y pwysau a roddwyd ar CNC gan INCC a'n cyfreithwyr Leigh Day, mae gweithredu ffurfiol wedi'i sefydlu o'r diwedd gan CNC, gan ddefnyddio ei bwerau statudol ei hun i adfer y cynefin glaswelltir llawn rhywogaethau ar y safle. Yn ôl CNC yn ei lythyr at INCC (25ain Hydref 2022), un rheswm allweddol dros y gweithredu i sicrhau rheolaeth addas oedd y ffaith bod

INCC wedi ailgyflwyno Britheg y Gors yno yn ddiweddar.

> *"Rydym yn cydnabod, o ystyried bod glöyn byw Britheg y Gors wedi cael ei ailgyflwyno'n ddiweddar i SoDdGA Comin Llantrisant gan INCC, bod sicrhau bod cymaint o gynefin addas â phosibl yn y dirwedd ehangach ar gael i'r rhywogaeth hon yn bwysicach nag erioed"*
>
> **Llefarydd CNC**

Mae INCC yn credu bod adfer rhywogaethau (a phoblogaethau o rywogaethau) i'r dirwedd yn elfen bwysig o weithredu cadwraeth natur yng Nghymru. Mae adfer cynefinoedd yn hanfodol, ond os ydym am wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, credwn fod angen dulliau cadwraeth mwy rhagweithiol nawr, ac ymyrraeth bellach. Mae gweithio ar raddfa'r dirwedd wedi bod yn agwedd bwysig bob amser ar sut mae INCC yn cyflawni ei gweithgareddau cadwraeth natur ymarferol. Rydym yn gwneud hyn drwy nodi rhywogaethau sy'n gallu gweithredu fel rhywogaethau blaenllaw i'w tirwedd a darparu dull o annog cymunedau lleol i fod wrth galon y gweithredu cadwraeth.

Rhywogaethau blaenllaw yw'r rhywogaethau hynny sydd mewn angen dybryd am ymyrraeth, neu rywogaethau sy'n symbol o gynefin penodol. Mae'r dull hwn o weithredu wedi ein galluogi i weithio mewn amrywiaeth o gynefinoedd ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau, ac mae hefyd yn ein galluogi i gyfleu negeseuon a chamau cadwraeth cymhleth yn well i gymunedau lleol.

Efallai mai ein prosiect i adfer poblogaeth Britheg y Gors yw'r enghraifft orau o sut rydym yn gwneud hyn.

## Atgyfnerthu Poblogaethau Britheg y Gors

Mae Britheg y Gors wedi dirywio'n eang ar draws llawer o'i hamrediad naturiol, gan gynnwys y DU. Mae'r rhywogaeth bellach yn un o'r glöynnod byw sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf yn Ewrop. Mae Cymru'n parhau i fod yn gadarnle cymharol i Fritheg y Gors yn fyd-eang, ond hyd yn oed yma, mae'r boblogaeth yn dirywio ac mae difodiant lleol yn parhau i ddigwydd.




Britheg y Gors yn mwynhau'r haul ar Gomin Llantrisant Mai 2024.




Britheg y Gors yn y gorlan fagu 31/05/24.

Mae ein prosiect atgyfnerthu Britheg y Gors wedi bod yn weithredol ers pedair blynedd bellach, ar ôl magu lindys mewn caethiwed am y tro cyntaf yn ôl yn 2021.

Mae'r prosiect yn atgyfnerthu poblogaeth sy'n lleihau ac yn agored i niwed o'r glöyn byw mewn tirwedd yn Ne Cymru, o amgylch trefi Llantrisant a Thonyrefail, gan ddod â nhw yn ôl fel eu bod yn gallu ailboblogi Comin Llantrisant a gweddill y dirwedd.

Unwaith eto, casglwyd lindys o'r gwyllt yng Ngwanwyn 2024. Aethpwyd â hwy i'n corlannau magu ni i ddatblygu i fod yn oedolion, a gwelwyd y glöyn byw cyntaf yn y corlannau ar yr 20fed o Fai 2024.


Yn ystod diwedd y gwanwyn a haf 2024, fe wnaethom barhau i fonitro'r Fritheg y Gors yn y corlannau magu ac ar y Comin, lle gwelwyd nhw eto'n hedfan dros lawer o'r safle, er bod tywydd gwael yn golygu bod y niferoedd yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Ni chafwyd unrhyw ryddhau pellach ar y Comin yn 2024 gan ein bod eisiau cynyddu'r niferoedd yn y corlannau magu gyda rownd arall o fagu yn 2025, gan anelu at ryddhau larfa ar ddiwedd yr haf y flwyddyn honno.

## Llwyddiant Magu

Cynhaliwyd cyfrifiadau gweoedd larfaol eto ym mis Awst a mis Medi i asesu'r dosbarthiad a'r niferoedd ar y Comin. Roedd llai o weoedd nag yn y blynyddoedd blaenorol, yn ôl

pob tebyg oherwydd tywydd gwael yn gynnar yn yr haf a fyddai wedi llesteirio llwyddiant magu'r glöyn byw.



Lleoliad gweoedd larfaol Britheg y Gors ar Gomin Llantrisant 2024.

Roedd y gweoedd larfaol ar y comin wedi'u dosbarthu'n eithaf eang ond wedi'u crynhoi ar y tir i'r gorllewin, lle gwelwyd y rhan fwyaf o'r glöynnod byw ychydig fisoedd ynghynt.

Mae llwyddiant parhaus poblogaeth fagu Britheg y Gors ar Gomin Llantrisant yn newyddion cadarnhaol iawn, ac yn dyst i'r holl waith a chefnogaeth gan wirfoddolwyr, cyllidwyr, partneriaid a'r gymuned leol.

Ar ddechrau 2025, fe wnaethom ymweld â'r Comin yn rheolaidd i weld sut roedd y lindys wedi ymdopi dros y gaeaf. Roedd y tywydd wedi bod yn arbennig o wlyb, felly roeddem yn falch o weld larfa allan yn torheulo mewn ychydig o leoliadau ar draws y safle.




Larfa Britheg y Gors ar Gomin Llantrisant ym mis Chwefror 2025.

## Adfer Cynefinoedd

Yn 2024, cynhaliwyd prosiect rheoli cynefinoedd helaeth ar Gomin Llantrisant, er mwyn adfer rhywfaint o'r cynefin salach ar y safle. Dewiswyd yr ardaloedd yn ofalus gan ystyried lleoliad gweoedd larfaol Britheg y Gors. Canolbwyntiwyd y torri ar ardaloedd o Laswellt y Gweunydd *Molinia caerulea* bras a rhai clytiau ungnwd mawr o Redyn *Pteridium aquilinum.*

Gwnaed y gwaith torri gan Gyngor Rhondda Cynon Taf a dylai ganiatáu i gynefinoedd mwy addas ac

amrywiol ddatblygu, gyda phlanhigion blodeuol gan gynnwys Tamaid y Cythraul *Succisa pratensis* (planhigyn bwyd larfa Britheg y Gors) yn fwy tebygol o ffynnu. Byddwn yn dychwelyd i'r safleoedd hyn yn 2025 i asesu pa mor dda y mae'r llystyfiant yn adfer ac i weld a yw'r Tamaid y Cythraul ac wedyn Britheg y Gors yn sefydlu yn yr ardaloedd sydd wedi'u torri.




Golygfa o’r awyr o rai o’r ardaloedd wedi’u torri ar y Comin, Rhagfyr 2024.

## Cyhoeddi

Un o amcanion INCC ar gyfer prosiect Britheg y Gors oedd cynhyrchu cyhoeddiad yn cofnodi'r prosiect o’r dechrau i’r diwedd, gan gynnwys ecoleg Britheg y Gors, rheoli cynefinoedd, a’r broses fagu mewn caethiwed.

Cyhoeddwyd hwn yn 2024 gyda chopïau papur ar werth, yn ogystal â fersiynau digidol ar gael ar wefan INCC. Cynlluniwyd y ddogfen i alluogi i eraill allu ei defnyddio i gynllunio eu prosiectau atgyfnerthu poblogaethau eu hunain o’r math yma, drwy dynnu sylw nid yn unig at yr hyn a aeth yn dda, ond hefyd yr hyn oedd yn llai llwyddiannus, fel bod eraill yn gallu dysgu o’n profiadau.




Clawr blaen llyfr Britheg y Gors INCC.

## Ailgyflwyno Llygod Pengrwn y Dŵr i Afon Ddawan

Ym mis Mai 2024, ailgyflwynodd INCC (gan weithio gyda pherchnogion tir lleol a sefydliadau partner) fwy na 100 o Lygod Pengrwn y Dŵr *Arvicola amphibius* i Afon Ddawan ym Mro Morgannwg. Roedd rhyddhau'r Llygod Pengrwn y Dŵr yn ganlyniad i sawl

blwyddyn o gynllunio, adfer cynefin, a rheoli'r Minc Americanaidd *Neovison vison* gan y bartneriaeth.

Roedd Llygod Pengrwn y Dŵr yn cael eu cofnodi yn Nyffryn Ddawan tan 2004, cyn iddynt ddiflannu. Gwnaed ychydig o gofnodion ar ôl y dyddiad hwn, ond ni ellid dilysu'r un ohonynt. Byddai'r afon ei hun wedi bod yn llawn Llygod Pengrwn y Dŵr ar un adeg, o'i tharddiad ger pentref Llansanor i'w haber yn Aberddawan ym Môr Hafren.



Corlannau rhyddhau Llygod Pengrwn y Dŵr yn barod i gael eu lleoli ar hyd Afon Ddawan mewn cynefin addas.

Er bod ymlediad prysgwydd ac amaethyddiaeth ddwys wedi effeithio ar gynefin glan afon y Ddawan, credir mai'r prif reswm dros ddifodiant Llygod Pengrwn y Dŵr ugain mlynedd yn ôl oedd presenoldeb y Minc Americanaidd.

Bydd y prosiect yn parhau i adfer y cynefin a rheoli'r Minc ar draws Dyffryn Ddawan ac mae ailgyflwyno pellach wedi'i gynllunio yn y dyfodol.



Llygoden Bengron y Dŵr yn gadael ei chorlan ryddhau am y tro cyntaf i fentro ar hyd glannau Afon Ddawan.

## Ailgyflwyno Britheg y Gors yng Ngogledd Sir Benfro

Mae INCC yn gweithio gyda Dr Beynon’s Bug Farm ar brosiect uchelgeisiol i ailgyflwyno’r glöyn byw Britheg y Gors i Ogledd Sir Benfro. Mae gan yr ardal lawer o gynefinoedd glaswelltir corsiog sy’n addas i gynnal y glöyn byw a chredir

i’r rhywogaeth ddiflannu oddi yma tua 10 i 15 mlynedd yn ôl.



Yr ardal graidd a chynefin addas i ailgyflwyno Britheg y Gors i Ogledd Sir Benfro (J. Hudson).

Ers difodiant y glöyn byw, mae llawer o waith adfer a chreu cynefinoedd wedi digwydd, gan gysylltu clytiau o laswelltiroedd corsiog da ac addas.

Mae INCC wedi gallu ysgrifennu trwydded ar gyfer y prosiect a bydd casglu lindys o'r gwyllt yn digwydd ym mis Mawrth 2026. Cyn hynny, mae llawer o waith i'w wneud o hyd, gan gynnwys tyfu Tamaid y Cythraul a monitro safleoedd cyfrannu posibl, a fydd yn digwydd yn haf 2025.

## Achub Llygod Pengrwn y Dŵr yr Ucheldiroedd

Yn 2024, fe ddechreuodd INCC ei Brosiect Llygod Pengrwn y Dŵr yr Ucheldiroedd uchelgeisiol, diolch i gyllid gan Gronfa Gweledigaeth Gymunedol Pen Y Cymoedd. Mae'r prosiect wedi'i leoli yn ucheldiroedd cymoedd Cynon, Rhondda, Nedd ac Afan, rhai o'r llochesi olaf i'r rhywogaeth brin a rhyfeddol hon yng Nghymru. Mae'r dirwedd yn un o'r lleoliadau olaf i ni wybod amdano ar gyfer y poblogaethau presennol o Lygod Pengrwn y Dŵr ym Morgannwg gyfan.



Cynefin nodweddiadol yn yr ucheldir i Lygod Pengrwn y Dŵr yn ardal Pen y Cymoedd.

Mae'r tirweddau ucheldirol hyn yn dod yn fwyfwy pwysig os ydym am achub Llygod Pengrwn y Dŵr yng Nghymru, ond maent hefyd yn wynebu llawer o bwysau gwahanol, o goedwigaeth ac adfywiad conwydd, i ffermio, newid hinsawdd, ynni adnewyddadwy a'r Minc Americanaidd.

Tua diwedd y gwanwyn, roeddem yn ddigon ffodus i allu cyflogi dau Swyddog Cadwraeth i weithio ar y prosiect, Eliza Chapman a Richard Bluck.



Eliza yn cymryd samplau dŵr.

Roedd y rhan fwyaf o 2024 yn cynnwys arolygon helaeth o ardal y prosiect, gan chwilio am arwyddion maes nodedig o Lygod Pengrwn y Dŵr, a dechrau mapio eu dosbarthiad ar draws yr ardal enfawr hon. Rydym eisoes wedi darganfod mwy nag 20 o boblogaethau newydd, a darganfod y Minc Americanaidd mewn un neu ddau o safleoedd oedd yr unig elfen negyddol.




Richard yn arolygu ar hyd nant yn yr ucheldir.

## Ymchwil a Geneteg

Byddwn yn parhau i fonitro'r poblogaethau hyn, yn ogystal ag adnabod rhai newydd, drwy gydol 2025. Byddwn hefyd yn cynnal gwaith genetig ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth i asesu pa mor dda y mae'r poblogaethau wedi'u cysylltu, ac felly pa mor agored i niwed ydynt.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd ar ddulliau eraill o asesu pa mor bell y bydd Llygod Pengrwn y Dŵr unigol yn symud ar draws y dirwedd. Un dull sy'n cael ei dreialu yw rhoi gliter bwytadwy yn eu bwyd. Mae'r gliter yn gwbl ddiogel i Lygod Pengrwn y Dŵr ond mae posib ei weld yn eu tail, gan ein galluogi i adnabod tiriogaethau unigol.




Dosbarthiad Llygod Pengrwn y Dŵr yn ardal y prosiect 2018 – 2025.

## Ymgysylltu Cymunedol

Mae ymgysylltu cymunedol yn rhan bwysig o'r prosiect a'r tu allan i'r tymor magu mae'r ymdrechion yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau cyhoeddus a hyfforddi gwirfoddolwyr.

Mae'r cynefin a'r dirwedd yn heriol, gan ei gwneud yn anodd dangos yn uniongyrchol i bobl leol eu tirwedd anhygoel a'r bywyd gwyllt mae'n ei gynnal. I oresgyn hyn, rydym wedi ymuno â'r stiwdio animeiddio Cloth Cat Animation i greu animeiddiad newydd sbon i dynnu sylw at Lygod Pengrwn y Dŵr a'u trafferthion.
https://bit.ly/INCCWaterVole



Wyn, cymeriad y Llygoden Bengron y Dŵr o'n hanimeiddiad am ddiwrnod ym mywyd Llygoden Bengron y Dŵr.

## Arolygon Rhywogaethau Cefn Garthenor

Ers dechrau 2021, mae INCC wedi bod yn gweithio'n agos gyda pherchennog tir o Geredigion i helpu i drawsnewid fferm ddefaid 88 hectar yn hafan i fywyd gwyllt. Cynhaliwyd arolwg cynefin sylfaen o Gefn Garthenor i ddechrau, i helpu

fel sail i gynlluniau creu ac adfer cynefinoedd yn y dyfodol.

Yn dilyn mapio'r cynefinoedd, mae cyfres o arolygon ecolegol yn mynd rhagddynt yng Nghefn Garthenor. Bydd yr arolygon hyn yn parhau i helpu i dargedu nodau adfer yn ogystal â helpu i sefydlu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y safle, a sut gellir cyflawni'r weledigaeth honno.



Chwilen Deigr Werdd *Cicindela campestris* sy'n newydd i Gefn Garthenor 25/05/24

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, mae arolygon wedi cael eu cynnal ar gyfer Britheg y Gors, adar, amffibiaid, ymlusgiaid a gwyfynod, gyda chamerâu hefyd wedi'u gosod ar draws y safle i chwilio am rywogaethau nosol.

Erbyn gwanwyn 2025, roedd 62 o rywogaethau o adar wedi cael eu cofnodi yng Nghefn Garthenor. Mae'r gwahanol gynefinoedd a'r adeiladau allanol ar y safle yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau fel y Gwybedog Brith *Ficedula hypoleuca*, y Dylluan Wen *Tyto alba*, y Gwybedog Mannog *Muscicapa striata* a'r Cudyll Coch *Falco tinnunculus*. Yr uchafbwynt y llynedd o ran adar oedd darganfod pâr o Ditwod yr Helyg *Poecile montanus* yn un o'r ardaloedd ffen helyg. Dyma un o adar magu prinnaf Cymru a byddwn yn chwilio am arwyddion ohono'n nythu yn 2025 a 2026.



Gwybedog Mannog y tu allan i safle nythu, Mai 2024

Un o'r rhywogaethau arwyddocaol ar y safle yw Britheg y Gors gyda'r arolygon yn cadarnhau ei phresenoldeb parhaus a'i llwyddiant magu.



Lindys Britheg y Gors wedi dod allan o'u gaeafgwsg yn ddiweddar, Mawrth 2025

Un o'r prif ddatblygiadau yng Nghefn Garthenor fu creu ardal gaeëdig helaeth i baratoi ar gyfer dyfodiad pâr o Afancod *Castor fiber*. Mae'r broses drwyddedu ar gyfer hyn wedi bod yn faith ond mae'r Afancod bellach yn eu cartref newydd ac eisoes yn dechrau gweithio drwy greu argaeau a ffosydd.



Tu mewn i safle'r Afancod.

Mae gweithio ar brosiect cadwraeth mor uchelgeisiol yn rhoi cyfle i INCC ddatblygu ein dealltwriaeth o adfer cynefinoedd ar raddfa tirwedd yn ogystal â'n helpu i reoli prosiectau tebyg yn well yn y dyfodol.

## Adfer Rhywogaethau Dyffryn Aman

Mae INCC wedi bod yn gweithio'n agos gyda pherchnogion tir a chymunedau yn Nyffryn Aman, Sir Gaerfyrddin ers 2018. Ein ffocws oedd adfer rhywogaethau a chynefinoedd yn y dirwedd, ond yn bwysicach fyth, sicrhau hefyd bod cymunedau lleol wrth galon y gwaith o wneud i hyn ddigwydd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae INCC wedi gallu ymgymryd â nifer o fentrau cadwraeth, yn amrywio o fonitro ecolegol i greu ac adfer cynefinoedd. Rydym bellach yn gweithio gyda nifer o berchnogion tir yn y dyffryn yn ogystal â thrigolion, cymunedau a busnesau lleol.

Yn allweddol i lawer o'n gweithgareddau adfer rhywogaethau ni yn Nyffryn Aman

mae ein gardd bywyd gwyllt a'n polydwnnel. Yn ogystal â chefnogi cynefinoedd dolydd, prysgwydd a phyllau, mae'r ardd bywyd gwyllt a'r polydwnnel yn chwarae rhan hanfodol mewn meysydd eraill o waith INCC. Mae llawer o'r planhigion Tamaid y Cythraul sydd eu hangen ar gyfer magu Britheg y Gors a phrosiectau adfer cynefinoedd yn cael eu tyfu yn y polydwnnel. Mae amrywiaeth o rywogaethau brodorol eraill yn cael eu tyfu yno hefyd, a bydd llawer o'r rhain yn mynd i wella gwerth bioamrywiaeth safleoedd lleol.



Yr ardd bywyd gwyllt a’r polydwnnel, Ebrill 2024, gyda gwirfoddolwyr yn plannu rhywogaethau dôl.

Un planhigyn arbennig rydym wedi bod yn ei dyfu yn 2024 yw'r Gludlys Amryliw *Silene gallica*. Mae hwn yn blanhigyn prin iawn, sydd i'w ganfod fel rheol mewn cymunedau planhigion sy'n llawn rhywogaethau ar gyrion caeau âr lle mae cnydau'r gwanwyn wedi'u hau. Mae'r planhigion hyn, a'u hadau, wedi'u bwriadu ar gyfer prosiectau adfer cynefinoedd tir fferm yn Sir Benfro a Bro Morgannwg.



Gludlys Amryliw yn dangos y blew gludiog sydd wedi rhoi ei enw iddo.

Mae'r ardd bywyd gwyllt yn cael ei rheoli gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr lleol sy'n helpu gyda chynnal digwyddiadau a phrosiectau creu cynefinoedd, ac yn sicrhau bod gweithgareddau hanfodol fel dyfrio, hau, potio a phlannu i gyd yn cael eu gwneud pan fo angen. Ni fyddai INCC yn gallu darparu'r adnodd cymunedol hwn oni bai am ymroddiad a brwdfrydedd ein gwirfoddolwyr.


Jan (ar y chwith) yn tywys trigolion lleol o amgylch y polydwnnel a rhai o'r rhywogaethau rydym yn eu tyfu.

## Cadwraeth Gymunedol

Yn ogystal â chynnal gweithgorau gwirfoddol, arolygon bywyd gwyllt a theithiau cerdded tywys, mae ein gwaith ymgysylltu cymunedol hefyd yn cynnwys cylchlythyrau bywyd gwyllt misol. Mae'r cylchlythyrau'n ffordd o hysbysu pobl am y bywyd gwyllt i gadw llygad amdano yn y dyffryn, yn ogystal ag awgrymiadau a chyngor ar ddenu mwy o fywyd gwyllt i'r ardd. Yn haf 2024, roeddem hefyd yn ffodus i gael Gráinne, ein Swyddog Bywyd Gwyllt Cymunedol, yn gweithio yn yr ardd bywyd gwyllt a gyda'r gymuned ehangach. Mae Gráinne a gwirfoddolwyr wedi plannu mwy o flodau gwyllt brodorol yn yr ardd, sy'n golygu bod ardaloedd y ddôl yn edrych yn wych.


Gráinne (ar y chwith) gyda gwirfoddolwyr ar ôl diwrnod caled o waith yn yr ardd bywyd gwyllt.

Defnyddir yr ardd hefyd fel canolfan ar gyfer cynnal digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer bywyd gwyllt a'r gymuned leol, gan gynnwys taith gerdded yn y gwanwyn a fynychwyd yn dda yn 2024.

## Cynllun Monitro Bocsys Nythu'r Gwybedog Brith

Un o rywogaethau blaenllaw INCC yn Nyffryn Aman yw'r Gwybedog Brith.



Gwybedog Brith gwryw ar focs nythu yn Nyffryn Aman.

Dechreuodd y gwaith o helpu'r rhywogaeth yn 2019 pan helpodd gwirfoddolwyr i greu a gosod 140 o focsys nythu yn eu lle. Gosodwyd 500 o focsys pellach yn yr ardal yn 2021 a 2022. Cyn ymwneud INCC yn Nyffryn Aman, nid oedd unrhyw gofnodion o'r Gwybedog Brith wedi'u gwneud, ac felly nid oedd ei ddosbarthiad yn hysbys. Yn 2024 defnyddiwyd o leiaf 25 o focsys nythu gan y Gwybedog Brith, gyda'r rhywogaeth hefyd yn byw mewn pump arall yn sicr bron.

Mae cynefin coetir addas o hyd ar gyfer y Gwybedog Brith yn Nyffryn Aman. Bydd yr ymdrechion yn parhau i weithio gyda pherchnogion coetiroedd i asesu addasrwydd cynefinoedd a, lle bo hynny'n briodol, gosod mwy o focsys nythu yn eu lle.

Mae poblogaeth y Gwybedog Brith ledled y DU wedi bod yn dirywio ers blynyddoedd lawer. Mae darparu safleoedd nythu addas a diogel yn y dyffryn ar gyfer pan fyddant yn dychwelyd adref o Affrica i fagu yn un mesur cadwraeth bach ond pwysig y gallwn ei wneud i helpu.

Yn 2025 rydym yn bwriadu gweithio gyda grwpiau modrwyo adar lleol i fodrwyo cywion sydd newydd ddeor. Bydd gwaith monitro dilynol wedyn yn galluogi i ni weld a yw'r un unigolion yn dychwelyd i'r dyffryn bob blwyddyn. Yn 2024, yn anffodus, fe wnaethom ddod o hyd i Wybedog Brith marw yn un o'r bocsys, ac roedd y fodrwy ar ei goes yn dangos ei fod wedi deor yng Nghwm Clydach ger Abertawe, ddwy flynedd ynghynt.

## Cynllun Cwpanau Nythu Gwenoliaid y Bondo

Roedd Gwennol y Bondo *Delichon urbicum* yn aderyn cyffredin yn Nyffryn Aman ar un adeg, ac mewn sawl ardal yng Nghymru hefyd. Ond mae tystiolaeth yn dangos bod eu poblogaeth wedi dirywio'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae llawer o ffactorau'n achosi'r dirywiad ond un o'r prif achosion yw diffyg safleoedd nythu oherwydd y newidiadau yn y dulliau a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth godi adeiladau.



Gwenoliaid y Bondo yn casglu mwd i wneud eu nythod.

Yn 2024, mae cyllid o Gronfa Gymunedol Mynydd y Betws, ynghyd â chyllid gan Bartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin, wedi galluogi INCC i osod mwy na 200 o gwpanau nythu artiffisial ar sawl eiddo yn y dyffryn, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r aderyn a'i statws cadwraeth yn y cymunedau lleol.



Cwpanau nythu newydd i Wenoliaid y Bondo wedi'u gosod ar Orsaf Heddlu Rhydaman yn 2024.

Diolch i'r bobl sydd wedi caniatáu yn garedig i'r rhain gael eu gosod ar eu hadeiladau, yn enwedig Clwb Rygbi Garnant, a'r Orsaf Heddlu yn Rhydaman. Byddwn yn cadw llygad ar y rhain yn ystod y blynyddoedd nesaf i weld faint o Wenoliaid y Bondo fydd yn dod i fyw ynddynt.

## Monitro'r Dylluan Wen

Gyda'i laswelltir corsiog, rhostir a dolydd, mae Dyffryn Aman yn gynefin delfrydol ar gyfer rhywogaethau o adar ysglyfaethus fel y Dylluan Wen.

# Rheoli Tir ac Adfer Cynefinoedd

Yn ystod y tair blynedd diwethaf rydym wedi bod yn monitro deuddeg bocs nythu ar gyfer Tylluanod Gwynion yn y dyffryn gyda help a chefnogaeth nifer o berchnogion tir a'r gwirfoddolwyr, Cedwyn a Dafydd.



Mae Dafydd a Cedwyn yn hanfodol i fonitro'r Dylluan Wen yn Nyffryn Aman ac mewn lleoliadau eraill yn Ne Cymru.

Yn 2024, roedd gennym dri nyth llawn a chyfanswm o saith cyw wedi'u modrwyo. Yn ogystal, roedd gennym sawl bocs oedd wedi cael eu harchwilio gan Dylluanod Gwynion dros y gaeaf blaenorol.

Gyda chefnogaeth pobl fel Cedwyn a Dafydd, gallwn fonitro poblogaeth y Dylluan Wen yn Nyffryn Aman a chyfeirio camau cadwraeth yn y dyfodol yn well.

Mae INCC yn credu bod rheoli tir ac adfer cynefinoedd yn allweddol i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth y mae Cymru wedi'i weld dros yr ychydig ddegawdau diwethaf.

Yn ogystal, mae rheoli tir yn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth INCC o'r materion sydd wrth galon adferiad byd natur yng Nghymru, ac yn rhoi mwy o awdurdod i'n llais ni wrth eiriol dros newid defnydd tir ehangach. Yn ogystal â rheoli ein Gwarchodfa Natur ni yn Fferm Llwyndewi (mwy o fanylion yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn), rydym hefyd yn cynghori tri pherchennog tir mawr yng Ngheredigion, Sir Benfro a Bro Morgannwg.

## Fferm Old Wallace

Mae Fferm Old Wallace yn fferm gymysg ym Mro Morgannwg. Ers 2023 mae INCC wedi gweithio gyda'r perchennog a'r ffermwr tenant i wella'r safle ar gyfer bywyd

gwyllt, gan sicrhau bod y fferm yn parhau i fod yn hyfyw yn ariannol. Mae'r camau gweithredu ers ein cysylltiad ni wedi cynnwys plannu coed brodorol a sefydlu ymylon âr 6m o led, yn llawn blodau gwyllt. Mae'r rhain yn darparu bwyd ar gyfer adar sy'n bwyta hadau fel y Bras Melyn *Emberiza citrinella* ac yn darparu cysgod i'r Ysgyfarnog *Lepus europaeus* a'r Ehedydd *Alauda arvensis* sy'n nythu, sydd i'w gweld yma i gyd.




Ymylon âr ar y fferm.

Mae mwy o waith wedi'i drefnu ar y fferm ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r ffermwr tenant i greu dolydd, pyllau bach a mawr a chynefinoedd eraill dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

## Llwyngoras

Mae INCC wedi bod yn gweithio'n agos gyda pherchennog tir yn Sir Benfro i'w helpu i gynyddu gwerth bioamrywiaeth ei fferm. Wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae Llwyngoras yn tua 39.2 hectar a than yn gymharol ddiweddar roedd yn fferm gymysg o borfa ac âr yn cynnwys porfa wedi'i gwella'n amaethyddol a chaeau silwair / gwair, gyda gwrychoedd trwchus a dyffrynnoedd coediog o'u hamgylch.



Gwartheg Henffordd yn Llwyngoras yn 2024.

Cynhaliodd INCC asesiad cynefin cychwynnol yn haf 2024, gan lunio adroddiad wedyn yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer ffyrdd o wella ei werth ecolegol.

Yn 2024, heuodd staff INCC, ynghyd â myfyrwyr o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr, hadau blodau gwyllt brodorol o ffynonellau lleol mewn dwy o'r dolydd tlotaf o ran rhywogaethau, i sefydlu mwy o flodau gwyllt.



Myfyrwyr yn gwasgaru hadau blodau gwyllt o ffynonellau lleol.

Mae bocsys Pathewod *Muscardinus avellanarius* wedi cael eu gosod ledled y coetir hefyd, a chadarnhawyd bod Pathewod yn magu yno yn hydref 2024. Mae'r cynlluniau ar gyfer y fferm yn y dyfodol yn cynnwys creu a gwella cynefin y Pathewod i gysylltu'r gwrychoedd a chynefin y coetir yn well.



Pathew a ganfuwyd yn Llwyngoras mewn bocs nythu, Hydref 2024. Mae'r pathewod yn cael sylw gan wirfoddolwr trwyddedig.

## Gwarchodfa Natur Llwyndewi

Mae gwarchod a rheoli tir er budd byd natur yn hanfodol os ydym am wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Yn dilyn dwy flynedd o gydweithredu â'r cwmni dŵr mwynau o Gymru, Brecon Carreg, yn 2024 llofnododd INCC brydles hirdymor a roddodd reolaeth i ni ar fwy na tua 65 hectar o'u tir. Roedd y cwmni eisiau defnyddio eu tir i gyflawni mwy dros fioamrywiaeth ac mae'r warchodfa, o'r enw Llwyndewi ar ôl y fferm a arferai reoli'r tir hwn, bellach yn warchodfa natur gyntaf INCC yn swyddogol!

Mae'r tir yn fosäig rhyfeddol o wahanol gynefinoedd ucheldir, o laswelltiroedd corsiog a dolydd i goetir Derw a Rhedyn trwchus.



Tirwedd ucheldirol yn Llwyndewi.

Roedd arolygon blaenorol wedi rhoi syniad i ni o rai o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n bresennol a'n blaenoriaethau ar gyfer rheoli. Un o'r cynefinoedd pwysicaf, ac sydd wedi'i esgeuluso fwyaf, yn y warchodfa yw ardal fawr o laswelltir corsiog. Fodd bynnag, roedd yr amrywiaeth o flodau yn gymharol isel, felly rydym wedi gosod ffens newydd o amgylch yr ardal sydd wedi ein galluogi i ddod â rhai gwartheg o fridiau brodorol i mewn. Mae'r gwartheg hyn yn addas iawn ar gyfer yr amodau llym sydd yma, a gobeithio y bydd eu pori'n dechrau gwella'r gwyndwn yn gyflym.



Gwartheg Swydd Henffordd brodorol yn pori'r porfeydd yn Llwyndewi.

Rydym eisoes wedi dod o hyd i fywyd gwyllt gwych yn y warchodfa, gan gynnwys y Gwybedog Brith mewn bocsys nythu a osodwyd yn eu lle gennym yn 2023, y Troellwr Mawr *Caprimulgus europaeus*, Pryfed Tân *Lampyris noctiluca*, Cen Stribed Selsig *Usnea articulata* a'r Ffug-bicwnen Dorchog *Sesia bembeciformis*, i enwi dim ond rhai. Fodd bynnag, yr uchafbwynt hyd yma yw dod o hyd i Ditwod yr Helyg yn nythu. O ganlyniad, gyda help gan fyfyrwyr o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr, rydym wedi cynnal rhywfaint o waith rheoli cynefin ar eu cyfer: creu pyllau gwlyb a phren marw, yn ogystal â gosod bocsys nythu arbenigol yn eu lle.




Titw'r Helyg, aderyn eithriadol brin yng Nghymru bellach a'r rhywogaeth breswyl sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf. Llun: Jeff Slocombe.

Mae'r safle'n gartref eisoes i amrywiaeth wych o gynefinoedd a rhywogaethau, ond mae ganddo botensial enfawr i fod yn well fyth.

## Cimwch Afon Crafanc Wen

Ers i ni weld Gwarchodfa Natur Llwyndewi gyntaf, rydym wedi meddwl y byddai'n lleoliad gwych fel safle arc i'r Cimwch Afon Crafanc Wen *Austropotamobius pallipes*. Mae safle arc yn lleoliad (pwll, llynnoedd neu afon) heb Bla'r Cimwch Afon *Aphanomyces astaci* ac mae posib ei warchod rhag dyfodiad yr haint (llwydni dŵr) yn y dyfodol.



Afon Llwchwr drwy Warchodfa Natur Llwyndewi.

Cyn y gellir ailgyflwyno, mae angen cynnal sawl asesiad.

Rydym yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn drwy gydol 2025 gyda'r gobaith o ddechrau ar y broses o gyflwyno ein cimychiaid brodorol i'r hafan ddiogel hon.



Cimwch afon crafanc wen ifanc.

# Contractau Cadwraeth

Mae INCC yn ffodus o fod â thîm bach o staff sydd ag amrywiaeth o sgiliau a phrofiad ym mhob agwedd ar gadwraeth natur. Defnyddir y sgiliau hyn i gyflawni contractau cadwraeth sy'n amrywio o arolygon ecolegol a monitro i asesiadau cynefinoedd a chynlluniau rheoli. Mae'r contractau cadwraeth yn ffordd bwysig i INCC gynhyrchu incwm yn ogystal â helpu sefydliadau partner i gyflawni eu hamcanion.

## Arolwg Gwrychoedd yr RSPB

Ar ddechrau 2024, comisiynwyd INCC i gynnal arolygon o'r gwrychoedd ar dir y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn ardaloedd Gwenffrwd a Dinas yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys tir sy'n destun tenantiaethau amaethyddol.

Aseswyd cyflwr y gwrychoedd gan ddefnyddio dull Arolwg Gwrychoedd Prydain Fawr Ymddiriedolaeth y Bobl o Rywogaethau mewn Perygl. Yn ogystal, nodwyd cyfleoedd ar gyfer ymyriadau rheoli, o reoli gwrychoedd presennol yn fwy cydymdeimladol i greu gwrychoedd newydd neu blannu coed.




Gwrych trwchus ar dir tenant i'r RSPB.

Yn ogystal, ymgynghorwyd hefyd â hen fapiau degwm yr ardal er mwyn nodi newidiadau dros amser ac i nodi cyfleoedd i greu gwrychoedd newydd.

## Arolwg Cynefinoedd yr RSPB

Hefyd cafodd INCC gontract gan yr RSPB yn 2024 i gynnal arolwg Cam I o'u gwarchodfa yng Nghwm Clydach, sef gwarchodfa natur coetir yn bennaf, wedi'i lleoli tua 19km i'r gogledd ddwyrain o Abertawe, mewn dyffryn serth sydd â hanes maith o gloddio am lo. Mae'n adnabyddus gan fod y Gwybedog Brith i'w weld yno, ac adar mudol eraill yr haf sydd o ddiddordeb.

# Cefnogi Cadwraethwyr ar Ddechrau eu Gyrfa

Yn ogystal ag arolwg Cam 1, y nod oedd casglu gwybodaeth ychwanegol i gefnogi gwneud penderfyniadau rheoli yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys presenoldeb rhywogaethau estron ymledol (INNS), gweithgarwch rheoli yn y gorffennol, a siarad â gwirfoddolwyr hirdymor y warchodfa am reoli'r safle.




Cynefin coetir Derw agored yng ngwarchodfa natur Cwm Clydach.

Cynhaliwyd arolygon gan staff INCC drwy gydol haf 2024, a alluogodd ni i gynhyrchu map cynefin Cam I gyda nodweddion allweddol o bwys, rhestrau rhywogaethau, a chyngor rheoli lle bo hynny'n briodol. Roedd cymariaethau gydag arolygon cynharach, gan gynnwys hen ffotograffau o'r awyr, yn galluogi i ni asesu sut mae'r safle wedi newid, gan ddangos sut mae gorchudd canopi'r coetir wedi cynyddu dros y degawdau diwethaf.

Un flaenoriaeth i INCC, ers i ni gael ein sefydlu yn 2018, fu cefnogi cadwraethwyr natur ar ddechrau eu gyrfa. Rydym wedi gwneud hyn drwy ddarparu interniaethau amrywiol, swyddi gwirfoddoli a hyfforddiant, yn ogystal â chynnig cyflogaeth i gadwraethwyr ar ddechrau eu gyrfa pan mae hynny'n bosibl.

Yn y cyswllt hwn, yn 2025 rydym yn bwriadu cyflogi pedwar myfyriwr o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr am gyfnod o bedwar mis (yn ystod tymor yr haf). Pwrpas y swyddi hyn yw cynyddu eu siawns o gael cyflogaeth yn y sector drwy brofiad uniongyrchol, sgiliau cynyddol, cysylltiadau a hyfforddiant. Y bwriad yw i ddau fyfyriwr weithio yn ein Gwarchodfa Natur ni yn Llwyndewi a dau fyfyriwr ar ein Prosiect Llygod Pengrwn y Dŵr yr Ucheldiroedd.

## Creu Porfa Goed Llwyngoras

Ym mis Tachwedd 2024, cynhaliodd INCC a pherchnogion tir Llwyngoras benwythnos preswyl gyda staff a myfyrwyr o blith Gwirfoddolwyr Cadwraeth Coleg Pen-y-bont ar Ogwr (BCCV). Er gwaetha'r tywydd heriol, cyflawnwyd llawer iawn. Pwrpas y penwythnos oedd plannu coed brodorol a chreu gwarchodwyr coed unigol mewn porfa i ddechrau'r broses o greu porfa goed.

Mae porfa goed yn gynefin prin yng Nghymru bellach a bydd y coed a'r gwarchodwyr a blannwyd yn caniatáu i wartheg bori'r borfa, gan alluogi'r coed i dyfu heb rwystr. Unwaith y bydd y coed yn cyrraedd maint addas, byddwn yn gallu tynnu'r gwarchodwyr.



Gwirfoddolwyr Cadwraeth Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn creu gwarchodwyr coed ar gyfer y cynefin porfa goed.

Y penwythnos preswyl yn Llwyngoras oedd y trydydd digwyddiad o'r fath a drefnwyd gan INCC, a gobeithir y gellir cynnal llawer mwy mewn cydweithrediad â BCCV yn y dyfodol.



Chwith: Eliza (aelod o staff INCC a chyn-fyfyrwraig yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr) yn gweithio ochr yn ochr â Freya (myfyrwraig yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr a gyflogwyd yn ddiweddar fel aelod o staff INCC ar brosiect Llygod Pengrwn y Dŵr yr Ucheldiroedd).

## Penwythnos Preswyl Cefn Garthenor

# Natur Cymru

Un o uchafbwyntiau Cefn Garthenor yn 2024 oedd yr ail benwythnos preswyl a gynhaliwyd ar y fferm, lle treuliodd myfyrwyr a gwirfoddolwyr o BCCV amser yn dysgu am y safle yn ogystal â chynnal rheolaeth cynefin ymarferol, fel ffensio a thynnu ffensys, ochr yn ochr ag arolygon o rywogaethau a monitro.




Samplu infertebrata o'r pyllau bach newydd yng Nghefn Garthenor.

Roedd yr arolygon hyn yn cynnwys parhad o'r arolygon botanegol a sefydlwyd yn 2023 yn ogystal ag arolygon infertebrata dŵr croyw o'r pyllau bach newydd.

Yn ogystal ag ennill profiad mewn sgiliau cadwraeth natur hanfodol, mae'r tripiau maes preswyl yn ffordd ardderchog i gadwraethwyr ar ddechrau eu gyrfa ddod at ei gilydd a ffurfio cysylltiadau parhaol a dysgu sgiliau bywyd eraill a chrefftau'r gwyllt.

Mae ein cylchgrawn nodedig, *Natur Cymru*, wedi cael ei gyhoeddi ers pedair blynedd lawn bellach, gyda rhifyn 71 yng ngaeaf 2024-25 y nawfed cylchgrawn gennym ni.

Postiwyd rhifyn 71 i gyfanswm o 653 o gyfeiriadau. Mae cronfa ddata'r tanysgrifiadau'n parhau i ddangos twf net araf, ac rydym yn eithriadol ddiolchgar i'n holl gefnogwyr ni sy'n tanysgrifio ac yn cyfrannu, yn enwedig yn erbyn cefndir parhaus o gyllid cenedlaethol heriol a'r wasgfa costau byw.




Gwaith celf y clawr o rifynnau 70 (haf 2024, yr artist yw Dr Rob Thomas) a 71 (gaeaf 24-25, yr artist yw Geoff Powell).

Rydym yn parhau i weithio'n galed i gynnal cydbwysedd yn ein cynnwys – o ran cynefinoedd, rhywogaethau a daearyddiaeth - gyda chynnwys yn

dod i mewn gan lawer o sefydliadau ac unigolion amrywiol o wahanol rannau o Gymru. Rydym hefyd yn parhau i gynnig ein dwy erthygl fawr yn y ddwy iaith, gyda chyfieithiadau ar gael ar ein gwefan ni ar gyfer yr erthygl yn y Gymraeg (ar gael i danysgrifwyr yn Saesneg ar y wefan) ac erthygl arweiniol / nodwedd INCC (ar gael yn y Gymraeg ar y wefan).




Derbyniodd y post Saesneg hwn ar X am danysgrifio i *Natur Cymru* fwy na 7000 o argraffiadau. Mae pob post wedi'i amserlennu yn ddwyieithog, neu'n cael ei bostio yn y ddwy iaith yn unigol (lle mae cyfyngiad nodau'n berthnasol).

Mae proffiliau cyfryngau cymdeithasol sy'n benodol i *Natur Cymru* (ond gyda brand deuol i INCC) yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n gwaith allgymorth. Yn ystod 2024-25, gwnaethom ddau newid i'n defnydd o blatfformau: ymuno â Bluesky @naturcymru.bsky.social a LinkedIn. Mae LinkedIn yn naturiol addas i *Natur Cymru* gan fod y deunydd rydym yn ei gyhoeddi'n cael ei ddarllen gan ac yn ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol yn y maes cadwraeth, ac felly mae'r platfform yn lle naturiol i hyrwyddo ein cynnwys. Byddwn yn adolygu llwyddiant y platfformau amrywiol hyn yn ystod y flwyddyn nesaf cyn penderfynu ar y llefydd a'r negeseuon mwyaf effeithiol ar gyfer ein gwaith yn y tymor hwy.

Diolchwn i'n dylunydd Louise Waring o AC9 Design, a'n cyfieithydd Haf Roberts.

## Gair o Ddiolch

Er mwyn cyflawni'r hyn rydym yn ei wneud dros fywyd gwyllt a chadwraeth natur yng Nghymru, rydym yn dibynnu ar gefnogaeth garedig a hael cyfranwyr, tanysgrifwyr, cefnogwyr a gwirfoddolwyr. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl unigolion, y

sefydliadau a'r mudiadau hynny sy'n cefnogi ein gwaith. Diolch.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Sefydliad Waterloo am eu cefnogaeth barhaus i'r elusen a'n gwaith.

Diolch hefyd i Sefydliad Garfield Weston, Cronfa Gymunedol Pen y Cymoedd, Ymddiriedolaeth Oakdale, Ymddiriedolaeth Pobl, Cymdeithas Adareg Cymru a'r World Wildlife Foundation (WWF) am eu cyfraniadau hael tuag at ein prosiectau cadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd amrywiol.

Hoffai INCC ddiolch yn arbennig i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi helpu'r elusen i gyflawni cadwraeth natur. Hoffem ddiolch yn arbennig i: Jan Slade ynghyd â Chyngor Tref Cwmaman am eu holl help a chefnogaeth gyda'n gwaith cadwraeth yn Nyffryn Aman.

Carys Romney, Paul Denning a Ben Williams am eu hamser, eu brwdfrydedd a'u hymroddiad i’r prosiect Britheg y Gors

Diolch arbennig i Lyn Evans, Alex Godfrey a myfyrwyr yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr am eu help a'u cefnogaeth gyda chymaint o'n prosiectau ni ledled Cymru.

Mike Alexander a'r nifer o staff dienw yn CNC am godi eu llais a helpu INCC i herio eu penderfyniadau dros fywyd gwyllt.

Yr holl gyfranwyr i Natur Cymru, y mae llawer ohonynt yn gwirfoddoli eu hamser a'u harbenigedd yn llwyr.

Diolch arbennig hefyd i: Iolo Williams, Gareth Griffith, Andy Davies, Alison Wheeler, Geoff Powell, Louise Waring, a Haf Roberts.

***Diolch yn fawr***